







Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CPH a Symudiadau Da Byw Canllaw Newydd



## Mehefin 2021



Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Cefndir
- 2.1 Beth yw CPH/rhif adnabod daliad?
- 2.2 Beth yw daliad?
- 2.3 CPH a rhoi gwybod am symudiadau da byw

3.0 Beth yw'r prif newidiadau i'r rheolau CPH?
- 3.1 Y rheol 10 milltir
- 3.2 Tir sydd fwy na 10 milltir o'r prif ddaliad
- 3.3 Opsiynau
  - A. Uno CPHs
  - B. Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLA)
  - C. CPH dros dro (tCPH)

4.0 Tir comin
- 4.1 Tir comin cyffiniol
- 4.2 Tir comin sydd ddim yn ffinio â'r daliad
- 4.3 Tir comin ag un porwr a thir comin caeedig

5.0 Daliadau ar draws y Ffin

6.0 Cyfyngiadau oherwydd Iechyd Anifeiliaid: TB Gwartheg

7.0 Newidiadau i dir yn y dyfodol / Rheoli fy Nhir 12

7.0 Crynodeb

8.0 Astudiaethau achos

Atodiad A: Rhestr termau

Atodiad B: Cysylltiadau defnyddiol

## 1.0 Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn disgrifio'r rheolau CPH a gafodd eu cyflwyno yn 2016 ac sy'n dal i gael eu cynnal ar holl ddaliadau amaethyddol Cymru.

Law yn llaw â'r rheolau CPH newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio system ar-lein newydd fel bod ceidwaid da byw yn cael rheoli eu CPH ar-lein, gan ddefnyddio'u cyfrif RPW Ar-lein.

Cewch fwy o wybodaeth am brosiect y CPH (gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin) ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru/prosiectcph

## 2.0 Cefndir

### 2.1 Beth yw CPH/rhif adnabod daliad?

Mae rhif CPH yn gyfeirnod daearyddol unigryw ar gyfer eich fferm neu'ch grŵp o barseli tir. Rhif naw digid yw'r CPH. Mae'r ddau ddigid cyntaf yn nodi'r sir, y tri nesaf yn nodi'r plwyf a'r pedwar olaf yn nodi'r daliad.

| Sir | Plwyf | Daliad |
|---|---|---|
| 12 | 345 | 0001 |

Y Rhif CPH yw sail pob system yng Nghymru ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau da byw. Os ydych chi'n cadw un neu fwy o'r rhywogaethau canlynol: gwartheg (gan gynnwys beison a byfflos), ceirw, defaid, geifr, moch a dofednod (mwy na 50 o adar), rhaid i chi gofrestru'r lle rydych chi'n eu cadw fel daliad gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA).

Nid yw rhif CPH yr un fath â rhif adnabod busnes 'Cyfeirnod y Cwsmer'[1] (CRN) a ddefnyddir gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW).

### 2.2 Beth yw daliad?

- Ystyr daliad yw unrhyw sefydliad/strwythur neu, yn achos ffermio maes, unrhyw amgylchedd lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw, eu magu neu eu trafod yn barhaol neu dros dro, ac eithrio milfeddygfeydd neu glinigau milfeddyg.
- Gall fod yn fferm neu eiddo arall megis marchnad, lloc, lladd-dy neu faes sioe. Efallai y bydd gan rai ceidwaid fwy nag un daliad ac efallai y bydd rhai daliadau'n cael eu defnyddio gan fwy nag un ceidwad.

### 2.3 CPH a rhoi gwybod am symudiadau da byw

Pan fydd da byw yn cael eu symud rhwng daliadau, rhaid i'r ceidwad roi gwybod am y symudiad i'r gronfa ddata ganolog (BCMS ar gyfer gwartheg, EIDCymru ar gyfer defaid neu BPEX[1] ar gyfer moch) o fewn tri diwrnod i'r symudiad gan ddefnyddio'r rhif CPH.

[1] Gweler Atodiad A – rhestr termau

## 3.0 Beth yw'r prif newidiadau i'r rheolau CPH?

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyno rheol 10 milltir ar gyfer pob symudiad da byw |
| 2 | Cyflwyno proses newydd o gofrestru cysylltiadau tir dros dro (TLA) a CPH dros dro (tCPH). |
| 3 | Rhaid i geidwaid sy'n cael tir **parhaol neu dros dro** newydd ar gyfer eu da byw roi gwybod am hynny i RPW **cyn** bod da byw yn cael eu symud i'r daliad er mwyn i'r CPH gael ei ddiweddaru neu er mwyn i CPH/ tCPH newydd gael ei roi. |
| 4 | Cofrestr electronig o bob CPH yng Nghymru yw Rheoli fy CPH. I fynd ato, rhaid mynd trwy RPW Ar-lein ac mae'n ffordd i ffermwyr weld a chynnal y tir sydd yn eu CPH ac i greu/cau CPH ar-lein. |

### 3.1 Y rheol 10 milltir

Mae'r rheolau newydd yn cyflwyno rheol 10 milltir ar gyfer symud unrhyw dda byw.

Bydd ceidwad da byw yn cael symud da byw rhwng plociau o dir sydd o fewn radiws o 10 milltir, heb orfod rhoi gwybod am y symudiadau hynny a heb waharddiad symud. Rhaid i'r ceidwad gofrestru'r holl dir a ddefnyddir o fewn y radiws o 10 milltir cyn cael symud da byw rhyngddynt. Bydd hyn yn cynnwys tir sy'n cael ei ddefnyddio'n barhaol a thros dro.


Mae'r pellter o 10 milltir yn cael ei fesur o ffin allanol y prif leoliad cynhyrchu[2] (PPL), ac mae'n cymryd lle'r rheol pum milltir a oedd yn arfer cael ei dilyn ar ddaliadau defaid a geifr.

Gall y rheol 10 milltir estyn dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr (darllenwch adran 5 i ddysgu mwy am ddaliadau ar draws y ffin)



[2] Gweler Atodiad A – rhestr termau

1.0 **Diagram yn dangos y rheol pum milltir presennol (ar gyfer daliadau defaid a geifr yn unig) a'r rheol 10 milltir newydd (ddim i raddfa)**




### 3.2 Tir sydd fwy na 10 milltir o'r prif ddaliad

Os oes gennych dir sydd fwy na 10 milltir o'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL), rhaid cael rhif CPH arall ar gyfer y tir hwnnw.

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Rhaid rhoi gwybod i'r gronfa ddata ganolog (h.y. BCMS, EIDCymru neu BPEX[3]) am symudiadau rhwng daliadau sydd â CPH gwahanol. Bydd hefyd angen:
  - Cadw cofrestrau gwahanol ar gyfer pob daliad
  - Defnyddio tagiau adnabod a marciau buches/diadell gwahanol
  - Cadw at y rheolau ar wahardd symud
  - Cadw at y rheolau profion TB cyn symud wrth symud gwartheg rhwng CPHs gwahanol

### 3.3 Opsiynau

#### A. Uno CPHs

Gall ceidwad ddewis uno eu CPHs os oes ganddo fwy nag un CPH parhaol o fewn 10 milltir i'r PPL. Dyma'r amodau ar gyfer uno CPHs:

- Rhaid cofrestru'r holl dir a ddefnyddir o fewn 10 milltir o dan un rhif CPH ar RPW Ar-lein neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.
- Rhaid i'r tir fod ar gael yn barhaol h.y. dros 364 o ddiwrnodau.

## Beth yw ystyr uno?

- Bydd parseli tir sydd wedi'u huno ac o fewn 10 milltir i'r PPL yn cael eu hystyried yn un daliad ac un rhif CPH fydd ganddynt.
- Bydd ceidwad yn cael symud anifeiliaid rhwng plociau o dir o dan yr un rhif CPH o fewn 10 milltir i'r PPL heb orfod cofnodi na rhoi gwybod am y symudiadau hynny, ac ni fydd gwaharddiad symud.
- **Rhaid** rhoi gwybod am bob symudad da byw i'r daliad o CPH arall, a bydd **gwaharddiad symud** ar bob parsel tir o fewn y daliad.
- Os ceir achos o TB ar unrhyw ran o'r daliad sydd wedi'i uno, bydd cyfyngiadau symud a rhaid cynnal profion TB cysylltiedig ar bob parsel tir yn y CPH h.y. byddant yn cael eu trin fel un uned.
- Ni fydd angen prawf TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud **rhwng** parseli tir o fewn y daliad, ond rhaid cynnal profion TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud i'r daliad.
- Os bydd ceidwad yn dewis uno CPHs parhaol, rhaid rhoi'r gorau i ddefnyddio tagiau adnabod y daliad sy'n cau (o ganlyniad i'r uno).
- Rhaid diweddaru cofrestrau daliadau ar ôl uno'r CPHs. Efallai y bydd y ceidwad am ddechrau cofrestr newydd ar gyfer y CPH a gedwir.
- Efallai y bydd angen cysylltu â BCMS i ddiweddaru lleoliad gwartheg ar eich cofnodion CTS.

## B. Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLA) – Tir a ddefnyddir am 364 diwrnod neu lai

Mae ceidwad sydd â thir tymor byr neu dros dro (e.e. tir pori yn ystod yr haf/tir tac dros y gaeaf) ar gyfer da byw o fewn 10 milltir i'r PPL yn cael cysylltu'r parseli tir hyn â'r CPH parhaol ond gall ddewis parhau i gofnodi a rhoi gwybod am symudiadau i ac o'r tir dros dro.

Dyma'r amodau ar gyfer creu Cysylltiadau Tir dros dro:

- Rhaid i'r ceidwaid da byw gofrestru'r holl dir tymor byr neu dros dro a ddefnyddir o fewn 10 milltir i'r PPL o dan rif CPH gan ddefnyddio Rheoli Fy CPH ar RPW Ar-lein, neu drwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
- Gall sefydlu Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) am hyd at 364 diwrnod – ar ôl hynny, daw i ben. Gall ceidwad ofyn am TLA sy'n ailadrodd bob blwyddyn (rTLA) ar gyfer yr un dyddiadau bob blwyddyn
- Rhaid nodi dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y TLA.
- Rhaid i'r ceidwad ddatgan a yw o dan gyfyngiadau TB wrth ychwanegu tir trwy roi tic wrth y datganiad TB. Bydd hyn yn cyfeirio'r cais yn awtomatig at sylw APHA. **Os daw ceidwad o dan gyfyngiadau TB a bod ganddo Gysylltiad Tir Dro Dro neu rTLA eisoes, rhaid rhoi gwybod i RPW trwy'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.**
- Y ceidwad fydd **unig feddiannydd** y TLA ac ni chaiff gymysgu ei dda byw â da byw ceidwad arall (mae hyn yn cynnwys peidio â rhannu'r un sied neu fuarth).
- Ni ddylech ddefnyddio'r TLA/rTLA tan y bydd RPW wedi cadarnhau'r tir. Mae'r cadarnhad yn cael ei anfon fel arfer trwy negeseuon RPW Ar-lein.

### Sut bydd Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLA) yn gweithio?

- Bydd parseli tir dros dro sydd wedi'u cofrestru fel TLA, ac sydd o fewn 10 milltir, yn cael eu hystyried yn un daliad ac yn rhannu'r un rhif CPH â'r PPL.
- Bydd ceidwad yn cael symud anifeiliaid rhwng plociau o dir sydd â'r un rhif CPH heb orfod cofnodi na rhoi gwybod am y symudiadau hynny, ac ni fydd gwaharddiad symud.
- **Rhaid** rhoi gwybod am bob symudiad da byw i'r daliad o CPH arall a daw pob parsel tir sydd â'r un rhif CPH o dan waharddiad symud.
- Os bydd achos o TB ar unrhyw ran o ddaliad sydd wedi'i uno, bydd cyfyngiadau symud a rhaid cynnal profion TB cysylltiedig ar bob parsel tir yn y CPH h.y. byddant yn cael eu trin fel un uned.
- Ni fydd angen cynnal prawf TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud rhwng y parseli tir o fewn y daliad, ond rhaid cynnal prawf TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud i'r daliad.
- Pan ddaw'r TLA i ben, ni fydd tir y TLA yn rhan o'r CPH mwyach at ddibenion cofnodi symudiadau a gwahardd symud.

## C. CPH Dros Dro (tCPH)

Os oes gan geidwaid dir tymor byr neu dros dro (e.e. tir pori yn ystod yr haf/tir tac dros y gaeaf) ar gyfer da byw y tu hwnt neu o fewn y ffin 10 milltir o'r PPL, caiff ofyn am tCPH. Fel arall, os yw'r tir hwn o fewn 10 milltir i PPL y CPH, efallai byddai'n well ganddo gysylltu'r tir â'r CPH parhaol fel TLA (gweler 3.3B uchod).

Dyma'r amodau ar gyfer y tCPH:

- Rhaid i'r ceidwad da byw gofrestru'r holl dir a ddefnyddir am gyfnod dros dro gan ddefnyddio Rheoli Fy CPH ar RPW Ar-lein, neu drwy gysylltu â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.
- Gallwch sefydlu tCPH am hyd at 364 diwrnod – ar ôl hynny, daw i ben.
- Gellir neilltuo tCPH ar dir o fewn 10 milltir neu dir sydd fwy na 10 milltir o'r PPL.
- Rhaid i'r ceidwad nodi dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y tir dros dro.
- Y ceidwad fydd **unig feddiannydd** y tir ac ni chaiff gymysgu ei dda byw â da byw ceidwad arall (mae hyn yn cynnwys peidio â rhannu'r un sied neu fuarth).

### Sut bydd CPH dros dro (tCPH) yn gweithio?

- Rhaid cofnodi pob symudiad rhwng daliadau sydd â rhifau CPH gwahanol, gan gynnwys rhifau CPH dros dro:

  – yng nghofrestr y daliad

  – a rhaid rhoi gwybod amdano i gronfa ddata ganolog y rhywogaeth.

- Mae hyn yn cynnwys:
  - Cadw at y rheolau ar wahardd symud;
  - Bydd angen profion TB Cyn Symud ar gyfer gwartheg sy'n symud rhwng CPH a tCPH;
  - Cadw cofrestrau ar wahân ar gyfer pob daliad.

- Bydd tCPH yn rhannu’r un marc buches/diadell â’r CPH parhaol. Rhaid i anifeiliaid ar dir y tCPH sydd angen tagiau newydd neu sy’n cael eu geni ar dir y tCPH gael eu tagio â’r tagiau a archebwyd ar gyfer y CPH parhaol.
- Bydd RPW yn ysgrifennu at y ceidwad 30 niwrnod cyn y dyddiad y bydd tCPH yn dod i ben. Ar ôl y dyddiad hwn, peidiwch â defnyddio rhif y tCPH i roi gwybod am symudiadau da byw.

## 4.0 Tir comin

### 4.1 Ychwanegu Tir Comin at CPH

Mae pob daliad sydd â chysylltiad â Thir Comin ac sydd â hawliau cofrestredig yn cael defnyddio’r Comin i bori da byw.  O’r blaen, roedd y cysylltiad Tir Comin yn rhoi’r hawl i’r ceidwad symud ei anifeiliaid i’r Comin, cyn belled â’i fod yn bodloni rhai amodau, heb fod angen trwydded na chofnodi symudiadau.  **Nid yw cysylltiad Tir Comin bellach yn gyson â’r rheolau CPH newydd.**  Bellach, rhaid i geidwaid da byw gofnodi’r tir, gan gynnwys Tir Comin, y maen nhw’n ei ddefnyddio i gadw eu da byw yn Rheoli Fy CPH.

O dan y rheolau newydd, mae’r gofyn i gofnodi symudiadau a gwahardd symudiadau a gofynion penodol yn ôl rhywogaeth, yn dibynnu p’un a yw’r Comin yn ffinio neu beidio â’r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL). Rhaid cynnwys y Comin yn y CPH i gael symud da byw iddo.

### 4.2 Nodi’r Prif Leoliad Cynhyrchu

Mae nodi’r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) yn rhan bwysig o’r broses o fapio’r CPH. Ar sail hyn y penderfynir a yw’r Comin yn ffinio neu beidio a sut i roi gwybod am symudiadau da byw o’r Comin ac iddo.

Wrth nodi'r PPL, **rhaid** adlewyrchu'r union ddefnydd a wneir o'r daliad ac **ni** ddylech ei ddewis yn unswydd er mwyn cael lleoliad sy'n ffinio â'r tir comin.  Rhaid nodi’r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) gan ddefnyddio’r rheolau canlynol:

- Y PPL yw lleoliad yr adeiladau da byw/y parlwr godro/y prif gyfleusterau trin at ddibenion iechyd a lles anifeiliaid.
- Os nad oes adeiladau / cyfleusterau (h.y. yn achos daliad eang), y PPL fydd man crynhoi’r anifeiliaid
- Lleoliad y rhan fwyaf o'r tir sy’n eiddo ichi neu sydd ar rent tymor hir.
- Ambell waith, os nad oes gan y ceidwad unrhyw dir wedi'i amgáu ac mai dim ond hawliau pori sydd ganddo, y cyfeiriad gohebu fydd y PPL.

**Rhaid peidio â symud** y PPL unwaith y byddwch wedi dechrau defnyddio Rheoli fy CPH oni bai bod y modd y defnyddir y daliad wedi newid yn sylweddol. Bydd gofyn i'r ceidwad ddangos tystiolaeth o'r newidiadau hyn i'r RPW er mwyn cael adolygu sefyllfa'r daliad.

### 4.3 Tir Comin sy’n Ffinio â’r PPL

Bydd Prif Leoliad Cynhyrchu'r ceidwad da byw yn ffinio â'r tir comin pan fydd yn rhannu ffin â'r tir comin. Unwaith y byddwch wedi dewis y Tarddle ar-lein ar Rheoli fy CPH, caiff ei gofnodi'n awtomatig.

Os bydd heol neu afon yn gwahanu'r Prif Leoliad Cynhyrchu, mae'n bosib na fydd y system

mapio yn cofnodi bod y daliad yn ffinio â'r tir comin. Os digwydd hyn, gall RPW ei gywiro. Gellir cysylltu'r tir os yw'n glir mai'r trac, llwybr, heol, twnel neu afon neu nodwedd arall yw'r unig beth sy'n rhwystro'r tir rhag ffinio â'r tir comin.


4.4 Tir Comin sydd ddim yn ffinio â'r PPL

Os nad yw PPL y ceidwad da byw a'r tir comin yn rhannu ffin, nid ydynt yn ffinio â'i gilydd. Nid yw ei dir yn ffinio mewn unrhyw ffordd â'r tir comin ac o dan amgylchiadau cyffredin, byddai'n rhaid cludo/gyrru'r anifeiliaid rhwng y tir comin a'r PPL. Os gwelir bod rhaid i'r ceidwad gludo neu yrru'r anifeiliaid i'r tir comin, yna **ni ellir** ystyried bod y PPL a'r tir comin yn ffinio â'i gilydd.

Os bydd yn rhaid mynd â'r anifeiliaid trwy dir nad yw o dan reolaeth ceidwad y da byw er mwyn cael mynd i'r tir comin, ni ellir ystyried eu bod yn ffinio, hyd yn oed os na ddefnyddir y tir yr eir trwyddo at ddibenion amaethyddol (e.e. coedwigaeth).

O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid neilltuo rhif CPH tir comin sy'n benodol i rywogaeth i'r ceidwad a rhaid rhoi gwybod am symudiadau. Gweler isod am wybodaeth am anifeiliaid penodol. Os nad yw'r tir comin yn ffinio â'r PPL, **ni fydd** modd eu huno o dan un CPH.

I gael mwy o wybodaeth am brofion TB a thir comin, dilynwch y ddolen ganlynol:
http://llyw.cymru/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/ cattlecontrols/pre-movement-testing/?lang=cy



**Gwybodaeth am Symud Rhywogaethau Penodol**

4.5 Gwybodaeth am Symud Rhywogaethau Penodol

| | |
|---|---|
| Defaid / Geifr | • Os byddwch yn symud anifeiliaid rhwng tir comin a phrif ddaliad sy'n **ffinio** â'i gilydd ac sydd â'r un rhif CPH, ni fydd angen rhoi gwybod am hynny gan yr ystyrir bod y tir comin yn rhan o'r prif ddaliad.<br><br>• Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau i ac o dir comin **sydd ddim yn ffinio**, gan nodi'r rhif CPH penodol i ddefaid a gawsoch gan RPW (00/000/xxxx). Rhaid i'r ceidwad anfon neges ar-lein at RPW neu ffonio'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid gyda manylion y tir comin nad yw'n ffinio er mwyn cofrestru â RPW ei fod yn pori defaid arno. Bydd angen rhif CPH tir comin gwahanol ar gyfer pob comin sydd ddim yn ffinio.<br><br>• Rhaid cofnodi'r symudiad yn llyfr y ddiadell a rhoi gwybod amdano trwy EIDCymru neu drwydded/dogfen symud (AML1). **Rhaid** gofalu bod yr anifeiliaid wedi'u tagio cyn eu symud i'r tir comin.<br><br>• Pan fydd anifeiliaid yn dychwelyd o dir comin, boed hwnnw'n ffinio neu ddim yn ffinio, bydd gwaharddiad ar bob symudiad i unrhyw le arall heblaw am fynd yn ôl i'r tir comin. Rhaid i bob symudiad i ac o'r tir comin fynd trwy CPH y ceidwad. |

| | |
|---|---|
| Gwartheg | • Cyn symud unrhyw wartheg i **unrhyw** dir comin, rhaid cynnal Prawf Cyn Symud. Mae gofyn i geidwaid sy’n pori eu gwartheg ar dir comin gysylltu ag APHA cyn symud unrhyw wartheg er mwyn trafod gofynion profi TB. Byddwn yn rhoi gwybod i APHA am bob ceidwad gwartheg sy'n ychwanegu tir comin at ei CPH.<br><br>• Os byddwch yn symud anifeiliaid rhwng tir comin a phrif ddaliad sy'n **ffinio** â'i gilydd ac sydd â'r un rhif CPH, ni fydd angen rhoi gwybod am hynny gan yr ystyrir bod y tir comin yn rhan o'r prif ddaliad.<br><br>• Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau i ac o dir comin sydd ddim yn ffinio, gan nodi'r rhif CPH penodol i wartheg a gawsoch gan RPW (00/000/xxxx) ac sydd wedi'i gofnodi yng nghofrestr y daliad ac y cafodd y BCMS wybod amdano. Bydd angen rhif CPH tir comin gwahanol ar gyfer pob comin sydd ddim yn ffinio.<br><br>• Pan fydd anifeiliaid yn dychwelyd o dir comin - boed hwnnw'n ffinio neu ddim yn ffinio - bydd gwaharddiad ar bob symudiad i unrhyw le arall heblaw am fynd yn ôl i'r tir comin. Rhaid i bob symudiad i ac o'r tir comin fynd trwy CPH y ceidwad.<br><br>• Os ceir achos o TB mewn unrhyw ran o ddaliad, gan gynnwys tir comin cyffiniol, bydd gofyn cynnal unrhyw gyfyngiadau symud neu brofion TB ar yr holl barseli tir yn y CPH. APHA fydd yn gofyn am asesiadau o achosion TB ar dir comin, yn unol â'r arfer.<br><br>• Ar gyfer senarios ‘gât agored’, ni fydd angen prawf TB Cyn Symud bob tro wrth symud gwartheg o fewn y daliad (i dir comin). Ond rhaid i’r ceidwad gysylltu ag APHA er mwyn cael ei esgusodi rhag gorfod cynnal prawf Cyn Symud. Yn lle hynny, caiff ei fuches brawf pob 6 mis yn unol â’r polisi presennol.<br><br>• Os oes gât caeedig yn gwahanu’r tir comin, gall y ceidwad, yn unol â’r polisi presennol, ddewis naill ai cynnal prawf Cyn Symud neu brofion |

4.6 Tir comin ag un porwr a thir comin caeedig

Mae tir comin ag un porwr ac sydd wedi’i amgáu ac sydd o fewn 10 milltir i’r PPL yn gymwys i’w uno gyda’r daliad. Cewch fwy o wybodaeth am uno rhifau CPH yn adran 3.3A.

Ond rhaid i geidwad y da byw ddatgan y canlynol:

- Bod y darn dan sylw o’r tir comin wedi’i amgáu gan ffens atal stoc sydd wedi bod yn ei lle am 10 mlynedd neu fwy, neu fod caniatâd Adran 38 (neu’i gyfatebol) dilys wedi’i roi;
- Dim ond **un** porwr cofrestredig sy’n pori’r tir comin sydd wedi’i amgáu, neu os oes mwy nag un porwr, y ceidwad sy’n datgan yw’r unig borwr sy’n troi neu wedi ceisio troi anifeiliaid allan i’r darn wedi’i amgáu yn y 10 mlynedd diwethaf;
- Mae’r darn o’r tir comin sydd wedi’i amgáu ar gael i’w ddefnyddio gan y nifer sydd â hawliau cofrestredig i bori’r darn hwnnw;

- Mae’n rhaid i’r rhan sy’n weddill o’r tir comin y tu allan i’r darn sydd wedi'i amgáu fod yn addas ar gyfer hawliau cofrestredig gweddill y tir comin yn gyfan, ond gan gyfeirio’n benodol at y difrod amgylcheddol y gall ei bori ei achosi;
- Bydd y ceidwad yn rhoi gwybod i RPW os bydd yr amgylchiadau’n newid, yn enwedig os bydd porwr arall yn troi neu’n ceisio troi anifeiliaid allan ar y darn sydd wedi’i amgáu.
- Bydd y darn sydd wedi’i amgáu yn cael ei drin fel unrhyw ddarn o dir arall ar gyfer rhoi gwybod am symudiadau da byw o ran rheolau CPH. Bydd hynny’n cynnwys y diffiniad o ‘unig feddiannydd’.

Cyn belled â bod RPW wedi cael gwybod ei fod yn gomin un porwr, yna mae ar gael i'r porwr ei ddewis fel unrhyw barsel arall o dir. Os na fydd RPW wedi cael gwybod am y comin un porwr, rhaid rhoi tystiolaeth i RPW er mwyn gallu ei gynnwys. Am ragor o wybodaeth, darllenwch Canllaw ar CPH Tir Comin Rheolau Newydd 2020.

## 5.0. Daliadau ar draws y Ffin

Mae prosiect ar wahân ond tebyg yn cael ei gynnal yn Lloegr i symleiddio trefn rifau'r CPH.  Mae Llywodraeth Cymru a Defra wedi dyfeisio ffordd fwy pragmatig i roi gwybod am symudiadau da byw ar draws y ffin, ac maen nhw wedi cytuno y caiff y rheol 10 milltir rychwantu ffin Cymru/Lloegr.

Mae hyn yn golygu bod tir o fewn 10 milltir yn Lloegr yn gallu uno â CPH yng Nghymru (ac fel arall) i ffurfio un CPH at ddiben rhoi gwybod am symud da byw.  Nid oes angen cofnodi na rhoi gwybod am symudiadau da byw o fewn CPH sydd wedi'i uno.

Bydd hyn yn golygu bod ceidwaid sydd â thir sy'n rhychwantu'r ffin yn yr un sefyllfa â cheidwad nad yw'n rhychwantu'r ffin o ran rhoi gwybod am symudiadau da byw.

I gael hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Datblygu Gwledig ar sail arwynebedd, bydd gofyn i geidwaid sydd â thir yn y ddwy wlad gyflwyno Ffurflen Cais Sengl (SAF) i Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer y tir yng Nghymru a'r ffurflen gyfatebol i'r Rural Payments Agency yn Lloegr ar gyfer tir yn Lloegr, waeth p'un ai un CPH sydd ganddo at ddibenion symud da byw.

## 6.0 Cyfyngiadau oherwydd Iechyd Anifeiliaid: TB Gwartheg

Efallai na fydd daliadau sydd o dan gyfyngiadau TB gwartheg ar hyn o bryd yn cael rhannu na/neu uno CPHs (nes y bydd gan y daliad Statws heb TB Swyddogol (OTF)) a bydd yn rhaid i filfeddyg APHA gymeradwyo unrhyw benderfyniad.

Os bydd ceidwaid yn dewis uno daliadau o fewn 10 milltir i'r PPL, bydd profion TB yn cael eu cydamseru gymaint â phosibl ar draws yr holl barseli tir sydd wedi'u huno.
Os bydd ceidwad yn dewis rhannu daliad, neu os bydd daliad yn cael ei rannu oherwydd y rheol 10 milltir, bydd APHA yn rheoli profion TB ac unrhyw achosion o TB arnynt yn annibynnol, oni bai bod yna gysylltiad epidemiolegol rhwng yr eiddo.
Os bydd ceidwad sy'n cymryd tir dros dro naill ai fel TLA/rTLA neu tCPH a'u bod o dan gyfyngiadau TB neu eu bod yn dod o dan gyfyngiadau TB tra bod trefniant TLA/rTLA yn ei le, rhaid rhoi gwybod i RPW. Bydd peidio â gwneud yn torri'r rheolau o dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010.

Dylai ceidwad gwartheg wybod am y rheolau newydd o dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), sef y bydd 50% yn llai o iawndal yn cael ei dalu am anifeiliaid sy'n cael eu symud o dan drwydded i ddaliad o dan gyfyngiadau os bydd yn rhaid eu difa wedyn oherwydd TB. I gael mwy o wybodaeth, dilynwch y ddolen ganlynol: http://llyw.cymru/docs/drah/publications/160229-tb-order-changes-cy.pdf

## 7.0 Newidiadau i dir yn y dyfodol / Rheoli fy CPH ar-lein

Rhaid i geidwaid sy'n cael tir **parhaol neu dros dro** ar gyfer eu da byw roi gwybod i RPW amdano **cyn** bod da byw yn cael eu symud i'r daliad er mwyn i'r CPH gael ei ddiweddaru neu er mwyn i CPH/ tCPH newydd gael ei roi. Ond os yw'r tir rydych yn berchen arno, yn ei rentu neu'n gyfrifol amdano o fewn 10 milltir o PPL, gallwch ddewis cysylltu'r tir hwnnw â CPH parahol fel Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA). Ni fydd angen rhoi gwybod am symudiadau a gwahardd symudiadau.

Dylai ceidwaid da byw fynd i'w cyfrif RPW ar-lein i ddefnyddio 'Rheoli fy CPH' er mwyn ychwanegu /dileu parseli tir yn barhaol neu dros dro, yn ogystal ag i greu neu gau CPH. I gael mwy o wybodaeth, ewch i www.cymru.llyw/rpwarlein neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 03000 062 5004.



## 8.0 Crynodeb

**Uno a TLA**


| | O fewn 10 milltir? | Mwy na 10 milltir? | Rhoi gwybod am symudiadau da byw rhwng TLA/ lleoliadau wedi'u huno | Cofnodion ar wahân rhwng TLA/ lleoliadau wedi'u huno | Angen tagiau gwahanol ar gyfer TLA/ lleoliadau wedi'u huno (marciau diadell/ | Profion TB Cyn Symud rhwng TLA/ lleoliadau wedi'u huno | Cadw at y gwaharddiad symud rhwng TLA/ lleoliadau wedi'u huno |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau lle mae CPH wedi'i uno | ✓ | Amh | X | X | X | X | X |
| Lleoliadau sy'n TLA | ✓ | Amh | X | X | X | X | X |

**Rhannu CPH a tCPH**

| | O fewn 10 milltir? | Mwy na 10 milltir? | Rhoi gwybod am symudiadau da byw rhwng CPHs | Cofnodion ar wahân rhwng CPHs | Angen tagiau gwahanol ar gyfer CPH gwahanol (marciau diadell/ buches | Profion TB Cyn Symud rhwng CPHs | Cadw at y gwaharddiad symud rhwng lleoliadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau lle mae CPH wedi'i uno | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Lleoliadau sy'n TLA | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | X | ✓ | ✓ |

## 9.0 Astudiaethau Achos **(Diagramau ddim i raddfa)**

**Enghraifft 1: Mae pob daliad neu eiddo o fewn radiws o 10 milltir**





- Daliad A yw'r prif leoliad cynhyrchu (PPL).
- Mae daliadau B ac C o fewn radiws o 10 milltir i'r PPL.

**Opsiynau**

1. Os yw'r tir yn B ac C yn cael ei ddefnyddio'n barhaol (dros 364 niwrnod), gall y ceidwad ddewis naill ai uno B a C â CPH A neu gadw CPHs ar wahân ar gyfer pob lleoliad.
2. Os yw'r tir yn B ac C yn dir dros dro (364 o ddiwrnodau neu lai), gall y ceidwad ddewis cysylltu lleoliadau B ac C dros dro (TLA) ag A neu wneud cais am CPH dros dro ar gyfer lleoliadau B a C (yn annibynnol).

**Enghraifft 2: Tir y tu allan i'r ffin 10 milltir**





- Daliad A yw'r prif leoliad cynhyrchu (PPL).
- Mae ffin daliad B dros 10 milltir o ddaliad A.

**Opsiynau**

1. Os yw'r tir yn B yn cael ei ddefnyddio'n barhaol (dros 364 o ddiwrnodau), caiff CPH newydd ei roi i B.
2. Os yw'r tir yn B yn cael ei ddefnyddio dros dro (llai na 364 o ddiwrnodau), caiff tCPH ei roi i B.

**Enghraifft 3: Daliad yn pori da byw ar dir sydd o fewn a'r tu allan i'r ffin 10 milltir**




- Daliad A yw'r prif leoliad cynhyrchu (PPL).
- Mae ffiniau daliadau B a D o fewn 10 milltir i ffin y PPL.
- Mae daliad C y tu allan i'r ffin 10 milltir.

**Opsiynau**

**Tir yn B a D** – Gall y ceidwad ddewis o'r opsiynau canlynol:

1. Os yw'n dir parhaol – uno B a D ag A a chadw A/B/D o dan 1 CPH.
2. Os yw'n dir dros dro – cysylltu B a D ag A a chadw A/B/D o dan 1 TLA CPH.
3. Dewis cael CPHs ar wahân ar gyfer A, B a D.
4. Uno B ag A a chadw D fel CPH ar wahân (yn dibynnu ar y math o ddaliadaeth) neu fel arall

**Tir yn C**

1.Os yw'r tir yn C yn dir parhaol (dros 364 o ddiwrnodau), caiff CPH newydd ei roi i C.

2. Os yw'r tir yn C yn dir dros dro (364 o ddiwrnodau neu lai), caiff tCPH ei roi i C.

## Atodiad A – Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| BCMS | Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain yn cadw cronfa ddata ar-lein o bob anifail o deulu'r fuwch ym Mhrydain, o'r enw System Olrhain Gwartheg (CTS). |
| BPEX | Mae Awdurdod Moch Prydain (BPEX) yn cadw cronfa ddata ar gyfer Cymru a Lloegr - y gwasanaeth e-AML2. |
| Cyffiniol | Tir cyffiniol yw parseli sy'n ffinio â'i gilydd ar System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru (LPIS). Maen nhw'n ymgorffori nodweddion parhaol fel cyrsiau dŵr.<br><br>Os oes gan ddaliad (au)/tir darniog arall barseli sydd y tu allan i'r terfyn 10 milltir ond bod y pellter byrraf rhwng y daliad hwnnw a'r daliad cyfeirio o fewn y pellter penodedig (h.y. ploc cyffiniol), bydd yr holl barseli o fewn y daliad arall yn gymwys i gael eu huno â'r CPH sy'n ffurfio'r grŵp o ddaliadau.<br><br>Mae tir comin cyffiniol yn rhannu ffin gyffredin. |
| Cyfeirnod Cwsmer (CRN) | Rhif busnes unigryw sy'n cael ei roi i gwsmeriaid RPW. Mae'n cychwyn gyda'r llythyren "A" ac mae 7 digid yn dilyn (e.e. A0012345). |
| EIDCymru | EIDCymru yw'r system cofnodi electronig ar gyfer defaid a geifr yng Nghymru. |
| Ffurflen y Cais Sengl (SAF) | Y ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno bob blwyddyn ar 15 Mai ar gyfer dyranu Hawliau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) neu i hawlio tâl ar gyfer:<br>• Cynllun y Taliad Sylfaenol (Taliad Gwyrdd a Thaliad Ffermwr Ifanc)<br>• Glastir Organig<br>• Glastir Sylfaenol a Glastir Uwch<br>• Premiwm Creu Coetir Glastir<br>• Glastir – Rheoli Coetir<br>• Premiwm Tir wedi'i Wella. |

| | |
|---|---|
| Prif leoliad cynhyrchu (PPL) | Y PPL yw prif leoliad y rhif CPH. Ffin allanol y PPL yw'r lleoliad o le mae pob daliad / parsel / tir darniog yn y grŵp yn cael ei fesur. Ni chaiff tir comin fod yn rhan o'r PPL.<br><br>Meini prawf (yn nhrefn blaenoriaeth):<br><br>• Y PPL yw lleoliad adeiladau'r da byw/ y parlwr godro/y prif gyfleusterau trafod at ddibenion iechyd a lles anifeiliaid/hwsmonaeth. Fel arfer, cyfeiriad y PPL fydd y cyfeiriad gohebu.<br>• Os nad oes unrhyw adeiladau/siediau (h.y. yn achos daliad mawr), y PPL yw lleoliad crynhoi'r da byw.<br>• Yn yr achosion prin lle nad yw'r ceidwad yn meddiannu unrhyw dir caeedig, ond fod ganddo hawliau pori tir comin, y PPL yw'r cyfeiriad gohebu.<br>• Lleoliad y gyfran fwyaf o'r tir sy'n eiddo neu'n cael ei rentu'n hirdymor.<br><br>Bydd y rheol hon yn cael ei defnyddio'n gyson i benderfynu a oes modd uno neu gysylltu tir yn y rhif CPH. |

## Atodiad B – Cysylltiadau defnyddiol

| | Rhif ffôn | E-bost |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Cyswllt i gwsmeriaid CPH 0300 062 5004 | |
| Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm | Ewch i'r ddolen hon: http://gov.wales/topics/ environmentcountryside/ farmingandcountryside/ farming/farmliaisonservic e/ farm-liaison-staff- contact- | farmliaisonservice@wales.gov.uk |
| APHA | Tîm cofrestru cwsmeriaid: 0300 303 | apha.cymruwales@apha.gov.uk |
| Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) | Cymraeg: 0345 050 3456<br>Saesneg: 0345 050 1234 | ctsonline@bcms.rpa.gov.uk |
| EIDCymru | 01970 636959 | contact@eidcymru.org |
| BPEX | 0844 335 8400 | |

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG29620